

**Rhaglen Cefnogi Pobl
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol**

**Dydd Iau, 7 Mehefin 2018, 10am
The Plough Inn, Rhos-maen, Llandeilo, SA19 6NP**

Presennol:

Aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol:

Y Cynghorydd Catherine Hughes, Cadeirydd Ymadawol (CH)	Cyngor Sir Ceredigion
Dr Gareth Morgan (GM)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Y Cynghorydd Jane Tremlett (JM)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Jason Smith (JS)	Family Housing Association
Y Cynghorydd Alun Williams (AW)	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd James Evans (JE)	Cyngor Sir Powys
David Harris (DH)	Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau
Simon Inkson (SI)	Cyngor Sir Powys
Rachael Eagles (REa)	Calan DVS
Cerys Purches-Philipps	Cyngor Sir Ceredigion
Rachel Parkinson (RP)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Necia Lewis (NL)	Hafan Cymru

Cyflwynwyr

Michael Smith (MS)	Cydgysylltydd Cydlyniant Rhanbarthol
Martyn Palfreman (MP)	Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol

Cynghorydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol:

Alun Jones (AJ)	Cyngor Sir Caerfyrddin
James Evans (JE)	Cyngor Sir Penfro
Gary Proven (GP)	Cyngor Sir Ceredigion
Adrian Jones (AdJ)	Cyngor Sir Powys
Rachel Evans (REv)	Cyngor Sir Powys

Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol

Beverly B. Davies (BD)	Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol
------------------------	------------------------------------

Ymddiheuriadau:

Sue Thomas (ST)	Cyngor Sir Ceredigion
Ian Randell (IA)	Cyngor Sir Penfro
Louise Webster (LW)	Cymdeithas Tai Wales and West
Carys James (CJ)	Cyngor Sir Ceredigion
Y Cynghorydd Pat Davies (PD)	Cyngor Sir Penfro
Emily James (EJ)	Cyngor Sir Penfro
Jonathan Willis (JW)	Cyngor Sir Caerfyrddin
Chris Harrison (ChH)	Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
1. Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau	<p>Croesawodd y Cynghorydd C. Hughes bawb i'r cyfarfod. Hysbyswyd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gan CH ynghylch ad-drefnu llywodraethu yng Ngheredigion a'r ffaith nad yw hi bellach yn dal y portffolio ar gyfer gwasanaethau i oedolion, ac felly mae'n trosglwyddo ei haelodaeth o Cefnogi Pobl / y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r cyfrifoldeb cysylltiedig i'w chydweithiwr, y Cynghorydd Alun Williams.</p> <p>Diolchodd CH i bawb am y gefnogaeth a'r holl waith a wnaed dros y pum mlynedd diwethaf, a dymunodd pob gorau i'r pwyllgor yn y dyfodol.</p> <p>Gwnaethpwyd cyflwyniadau a nodwyd yr ymddiheuriadau.</p>	<p>CH</p> <p>Pawb</p>
2. Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cam gweithredu	<p>Oherwydd ymrwymadau gwaith, mae Sharon Court, yr is-gadeirydd a'r cynrychiolydd gwasanaethau tymor byr, wedi rhoi'r gorau i'w swydd yn y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Mae Cymorth Cymru wedi cael ei hysbysu ac yn mynd drwy'r broses ar hyn o bryd o ethol cynrychiolydd newydd i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.</p> <p>Bydd y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ynghylch y cynrychiolydd darparwyr gwasanaethau tymor byr newydd.</p> <p>Cadeiriodd CH etholiad cadeirydd ac is-gadeirydd newydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.</p> <p>Etholodd y pwyllgor yn unfryd y Cynghorydd Jane Tremlett (awdurdod) fel Cadeirydd a Rachael Eagles (darparwr gwasanaeth) fel Is-gadeirydd ar gyfer 2018/19. Diolchodd y cadeirydd newydd i'r Cynghorydd. Hughes ar gyfer yr holl waith a wnaed ganddi ar gyfer y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.</p>	<p>CDRh</p>
3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r materion a godwyd Cam gweithredu	<p>Cytunwyd ar gywirdeb y cofnodion.</p> <p><i>Crynodeb o gamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf (08/03/2018)</i></p> <p>Mae AJ wedi anfon y cylchlythyr ar gyfer cynnwys defnyddwyr gwasanaethau at bawb – wedi'i gwblhau.</p> <p>'On Regional Agreement on Management Charges' – bydd AJ yn anfon y ddogfen ymlaen i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar ôl y cyfarfod.</p> <p>Gofynnodd REv am ragor o wybodaeth am y gwaith rhanbarthol ar daliadau rheoli.</p>	<p>Pawb</p> <p>AJ</p> <p>AJ</p> <p>AJ</p>

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
Cam gweithredu	<p>Pennodd AJ ddarlun rhanbarthol o'r taliadau rheoli a'r ymarfer a gynhaliwyd gan dimau Cefnogi Pobl a darparwyr er mwyn dod i gytundeb. Trefnwyd cyfarfodydd gydag amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau i drafod a chytuno ar raniad addas. Bydd y cytundeb yn cael ei rannu â phawb. Nid oedd yn glir p'un a yw'r cytundeb yn y rhanbarth yn gyson â rhanbarthau eraill. Bydd AJ yn anfon y cytundeb ar daliadau rheoli at yr holl ddarparwyr yn y rhanbarth.</p> <p>O ran SPURS – mae Sir Gaerfyrddin wedi dod â'r holl ddiffiniadau at ei gilydd ac mae bron yn barod.</p>	AJ
4. Datganiadau o fuddiant	Ni fynegwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	
5. Cyflwyniad – Fframwaith Rhanbarthol y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cam gweithredu	<p>Cyflwynodd BD grynodedb o'r ymarfer cwmpasu sy'n cael ei gynnal a thrafodwyd y materion canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Beth yw'n blaenoriaethau i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a pha rai o'r rhain sy'n cysylltu â'n blaenoriaethau i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol? 2. Ble ydym ni'n cydgysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus? 3. Sut mae gwariant Cefnogi Pobl yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus? <p>Tynnodd BD sylw at ganllawiau Cefnogi Pobl a'u gofyniad i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol sicrhau cysylltiadau ffurfiol â'r gwasanaethau cymdeithasol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Llesiant, yn ogystal â Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, i sefydlu strwythur llywodraethu a threfniadau adrodd cadarn i sicrhau bod gwaith y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cyd-fynd â gwaith comisiynu ehangach yn y rhanbarth.</p> <p>Gweler manylion y cyflwyniadau isod.</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru – Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol 2. Cyflwyniad y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol – y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus <p>Roedd y papur a gyflwynwyd yn anghyflawn. Bydd y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol yn ymgorffori blaenoriaethau ac amcanion penodol pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac, ar ôl ei gwblhau, caiff y</p>	BD

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
<p>Cam gweithredu</p>	<p>papur ei rannu â'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ar gyfer adborth cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Cyflwynodd BD Fframwaith Rhanbarthol a Strwythur Llywodraethu arfaethedig i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Gweler isod.</p> <p>Dywedodd BD ei bod hi wedi ymgynghori â ChH, Dr GM, ac REa, a chyfarfu ag M. Palfreman o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru i gyfnewid a thrafod cynlluniau ardal a'r strwythur llywodraethu wrth ddatblygu Fframwaith y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Mae BD hefyd wedi rhannu a chyfnewid cynlluniau strategol a llywodraethu gyda D. Jones o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys, a chytunodd y ddau i gyfarfod yn y dyfodol. Bydd BD yn cwrdd â Chydlynwyr Datblygu Rhanbarthol eraill y diwrnod canlynol i gymharu nodiadau a rhannu'r hyn a ddysgwyd.</p> <p>Tynnodd REv sylw at y ffaith fod y Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau ym Mhowys ar wahân i Orllewin Cymru.</p> <p>Bydd BD yn diwygio Fframwaith y Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol.</p>	<p>BD</p>
<p>6. Cyflwyniad: Cynllun Ardal Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru</p>	<p>Cyflwynodd MP Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru a'i rôl i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Mae'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bellach yn rhannu un cadeirydd.</p> <p>Gweler y cyflwyniad llawn isod.</p> <p>Tynnodd MP sylw yn y cyflwyniad at y cysylltiad rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a pha mor bwysig yw hyn o ran darparu gwasanaethau yn y dyfodol.</p> <p>Cydnabu MP yr heriau parhaus sy'n deillio o wahaniaethau ym mlaenoriaethau'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y rhanbarth, ond eu bod yn cysylltu â'i gilydd o ran canolbwyntio ar asesu'r boblogaeth.</p>	<p>MP</p>

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
	<p>Mae Cynllun Ardal Gofal Gorllewin Cymru ar gael ar-lein a gellir dod o hyd iddo yma. Fe'i cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, cafodd ei lywio gan yr asesiadau o'r boblogaeth, ac mae'n amlinellu'r amcanion strategol lefel uchel ar gyfer y pum mlynedd nesaf.</p> <p>Cyflwynodd MP y meysydd i'w trafod ar ddiwedd y cyflwyniad:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Sut gallwn ni ddatblygu cysylltiadau rhwng y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a Cefnogi Pobl / y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol? 2. Ble mae gorgyffwrdd yn digwydd rhwng y Cynllun Ardal / agenda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a'r rhaglen Cefnogi Pobl? 3. A yw gweithgareddau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gallu cefnogi Cefnogi Pobl / y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i gyflawni ei amcanion ac i'r gwrthwyneb? 4. Pa gyfraniad gall Cefnogi Pobl ei wneud at yr agenda ehangach fel yr amlinellir yn y Cynllun Ardal? 5. A oes cyfleoedd ar gyfer uno ffrydiau gwaith priodol? A fyddai'n bosibl i ni gael rhywun i weithredu fel cyswllt rhwng dau fwrdd? <p>Gwnaeth REv sylwadau ar gymhlethdod y trefniadau llywodraethu amrywiol yn y rhanbarth, gyda dau fwrdd partneriaeth rhanbarthol gennym a dau fwrdd cynllunio ardal ar wahân, a bod perygl ynghlwm wrth geisio gwneud popeth heb gyflawni dim byd o gwbl gan fod y maes mor eang. Gofynnwyd y cwestiwn, 'Ym mha le rydym ni'n mynd i ganolbwyntio o ran amcanion allweddol sy'n gyffredin rhwng dwy ardal (byrddau)?' Gofynnwyd cwestiwn hefyd ynghylch a oes cyfle rhwng dau fwrdd partneriaeth (Gorllewin Cymru a Phowys) i weithio ar y cyd a nodi lle mae meysydd cyffredin o ran cynlluniau ardal. A oes blaenoriaethau clir o fewn pob un o'r cynlluniau ardal hynny y gallem barhau i'w cadw neu 'gynllun ardal fwy' y gallwn ei gael? Nid creu mwy o fiwrocraatiaeth yw'r nod gyda hyn, ond creu symlrwydd drwy nodi meysydd cyffredin. Fel hyn, bydd gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gyfle gwell o alinio'r blaenoriaethau hynny.</p> <p>Argymhellodd GM waith y Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol, a gofynnodd a fyddai modd datblygu'r gwaith ymhellach drwy gynnal ymarfer 'mapio cyllidebau', pa gyllidebau sydd ar gael, a oes gorgyffwrdd o fewn ambell rai o'r rhain, a pha rai y gellir eu gwneud drwy weithio wrth ddesg. Sut mae rhai grwpiau, er enghraifft, Fforwm</p>	<p>Pawb</p>

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
	<p>Rhanbarthol y Lluoedd Arfog, yn rhan o'r fframwaith? Ychwanegodd GM fod y papur gwaith yn sylfaen dda ond mae'r cam nesaf yn gyffrous.</p> <p>Tynnodd AdJ sylw at y ffaith fod y grŵp yn siarad am atal ac atal pobl rhag mynd i wasanaethau cymdeithasol ac iechyd, ond ni ddywedwyd dim am ddigartrefedd yn y cyflwyniad. Esboniodd MP fod digartrefedd yn fater allweddol ond fod y bwrdd partneriaeth yn gweithredu ar fframwaith cyfreithiol allweddol ac yn canolbwyntio ei strategaethau ar yr hyn a amlinellir yn y Ddeddf – er hynny, mae cyfle i gysylltu â'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol i roi ystyriaeth i'r mater hwn.</p>	
<p>7. Cyflwyniad a chynnig ar gyfer comisiynu – Cydgysylltydd Cydlyniant Rhanbarthol</p>	<p>Cyflwynodd MS gyflwyniad byr ynghylch cydweithio posibl rhwng Cefnogi Pobl a'r rhaglenni Cydlyniant Cymunedol a Chydraddoldeb a Chynhwysiant. Gwnaeth MS gyflwyniad tebyg i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol y llynedd ond mae'n awyddus i symud y cydweithio ymlaen am fod Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol bellach yn ei swydd.</p> <p>Gweler y cyflwyniad llawn a'r papur ychwanegol yma:</p> <p>Anogodd MS i bawb gysylltu â'r rhaglenni Cydraddoldeb a Chynhwysiant ond mae'r tair rhaglen y gall Cefnogi Pobl eu cefnogi ar lawr gwlad, yn benodol gyda'r gweithwyr achos a swyddogion ymgysylltu, i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn perthynas â thai ac atal digartrefedd, fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Teithio Ymlaen 2. Sipsiwn, Roma, Teithwyr 3. Trosedd Casineb Cymru <p>Mae cydweithio posibl yn ymwneud â dangos y ffordd, hyfforddiant, ac ariannu ymgodiad.</p> <p>Roedd y cynigion a godwyd fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Y Cydgysylltydd Cydlyniant Rhanbarthol i weithio gyda'r Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol i weithredu'r gwaith o ddangos y ffordd ar gyfer y gefnogaeth a'r cyngor y gall y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant eu rhoi i dimau cymorth fel y bo'r angen Cefnogi Pobl, a darparu'r hyfforddiant sydd ar gael 	<p>MS</p>

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
<p>Cam gweithredu</p>	<p>2. Gweithio ar fanylion y cynnig ariannu gwell ar gyfer y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant gyda nod o gynyddu cefnogaeth i'r rhaglen a'r hyn mae'n ei ddarparu</p> <p>3. Ceisio adborth gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ynghylch drafftio Cynllun Cydlyniant Cymunedol Cenedlaethol</p> <p>Awgrymodd REv efallai na fyddai'r gwaith o ddangos y ffordd ar gyfer y cymorth y gallai'r Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant ei roi gael ei gyfyngu i gymorth fel y bo'r angen. Cytunodd MS fod angen iddo ehangu ei wybodaeth am Cefnogi Pobl er mwyn gallu integreiddio'r Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn y nifer amryfal o wasanaethau Cefnogi Pobl.</p> <p>Gofynnodd GM am gopi o'r cyflwyniad er mwyn ei rannu â rhai o'i gydweithwyr ym maes iechyd.</p> <p>Bydd MS yn anfon copi o'r cyflwyniad at GM.</p> <p>Tua dwy flynedd yn ôl, gweithiodd MS gyda chydweithwyr ym Mhowys i gynnal digwyddiadau ymgysylltu yn y Trallwng. Yr adeg honno, teimlwyd bod angen codi ymwybyddiaeth ynghylch gwasanaethau'r Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant ond cafwyd anawsterau o ganlyniad i wahaniaethau o ran diddordeb, problemau capasiti a diffyg arian. Os bydd arian ar gael, byddai diddordeb gan MS mewn sefydlu canolfan gymorth i bobl Bwylaidd, yn debyg i'r un a geir yn Llanelli. Dywedodd AdJ fod Powys yn darparu cymorth yn lleol, bod gan y cyngor sawl weithiwr cymorth sy'n siarad Pwyleg, a bod cysylltiad rhwng y ddwy raglen. Mae gan AdJ ddiddordeb mewn edrych ar ddatblygu rhywbeth ar y cyd.</p> <p>Dywedodd BD wrth y pwyllgor fod REa wedi cytuno i gysylltu gwasanaethau trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig (VAWDASV) yn ffurfiol â'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Tynnodd REa sylw at y ffaith fod gwasanaethau VAWDASV yn cael eu hariannu gan Cefnogi Pobl ond nad oedd unrhyw gysylltiad rhwng dau fwrdd strategol. Dywedodd REa wrth y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol hefyd fod y strategaeth VAWDASV ranbarthol yn destun ymgynghoriad, ac anogodd y pwyllgor i ymchwilio ymhellach iddi.</p> <p>Gofynnodd BD i'r pwyllgor enwi'r cysylltiad ffurfiol rhwng y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru. Mae'r Cyngorydd JT yn</p>	

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
Cam gweithredu	<p>cadeirio'r ddau fwrdd ac yn fodlon gweithredu fel y cysylltiad cyfathrebu rhyngddynt.</p> <p>Awgrymodd y Cynghorydd JT y gallai MS a'r Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol / BD weithio gyda'i gilydd, a bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn croesawu MS yn ôl i gael clywed ynghylch y cynnydd a wnaed.</p>	
<p>8. Diweddariad ar y Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol</p> <p>Cam gweithredu</p>	<p>Rhannwyd ymddiheuriadau gan J. Morgan a J. Willis. Rhannodd RP y newyddion diweddaraf â'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ynglŷn â'r Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol.</p> <p>Mae Deddf Tai (Cymru) 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol adolygu gwasanaethau tai a datblygu strategaeth ddigartrefedd a fydd yn cael ei hadolygu o leiaf bob pedair blynedd.</p> <p>Prif nod y strategaeth yw atal digartrefedd, yn ogystal â sicrhau llety diogel ar gyfer pobl ddigartref a chefnogi pobl sydd mewn argyfwng neu a allai fod mewn argyfwng.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob rhanbarth lunio strategaeth ranbarthol. Nid yw pob awdurdod yn y rhanbarth yn ei wneud ond erbyn hyn mae cytundeb rhwng pedwar awdurdod lleol yn y canolbarth a'r gorllewin i ddatblygu un strategaeth ranbarthol sy'n gyffredin i bawb. Bydd yn cynnwys egwyddorion allweddol. O dan y strategaeth gyffredin, ceir cynlluniau camau gweithredu lleol unigol.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae awdurdodau lleol yn cynnal gwaith ymgynghori, yn siarad â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth, ac yn dadansoddi data. Mae arbenigwr/ymgyngorydd yn gweithio ar y strategaeth. Mae llawer o waith yn mynd rhagddo ond bydd yr egwyddorion allweddol a gwybodaeth fwy sylweddol yn barod erbyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ym mis Medi.</p> <p>Bydd y Strategaeth Ddigartrefedd ar agenda'r cyfarfod nesaf.</p>	RP
9. Adroddiadau diweddar/cynnydd	<ul style="list-style-type: none"> Ar gyllid hyblyg Dywedodd AJ fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar weithredu'r cyllid hyblyg llawn erbyn mis Ebrill 2019. Mae hyn yn golygu uno deg o grantiau er mwyn cael un. Mae saith cynllun braenaru ar draws Cymru yn peilota cyllid hyblyg llawn, nad oes yr un ohonynt o fewn ardal ein Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol. Roedd pryder nad oedd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn cymryd rhan yn y broses ddysgu a gallai fod ar ei hôl hi 	AJ

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
	<p>pan gaiff ei gyflwyno. Pwysleisiodd AJ sut yr oedd wedi cyfrannu at y broses , gan fynychu cyfarfodydd y rhwydwaith i'r rhai nad oes yn rhan o'r cynllun braenaru ac ymgynghoriadau i ddysgu gan y rhai sydd â chynlluniau braenaru.</p> <p>Mae'r rhai sydd â chynlluniau braenaru wedi rhoi eu cynlluniau ar waith o ran sut i wario eu harian, gyda'r nod o wneud penderfyniad yn yr hydref ar ôl cyfnod o chwe mis yn casglu data. Mae'r maint o ddata a thystiolaeth sydd ar gael i lywio'r penderfyniad yn destun pryder yn ôl pob golwg. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymgynghorydd annibynnol i adolygu'r broses a bydd yn cysylltu â nifer o bobl ledled awdurdodau lleol sydd â chynllun braenaru a'r rhai nad oes ganddynt gynllun braenaru.</p> <p>Mynegodd AJ ei bryder o ran y ffaith mai dau yn unig o'r rhai a oedd ganddynt gynlluniau braenaru a oedd yn gallu adrodd ar gynnydd yn ystod y cyfarfodydd cynllun braenaru diwethaf ac ni ddysgwyd llawer o wybodaeth. Mae hefyd yn bryder nad yw'r rhwydwaith ar gyfer y rhai nad oes ganddynt gynllun braenaru yn cael ei lywio gan y rhaglen Cefnogi Pobl.</p> <p>Mae cyllid hyblyg yn cael ei gymhlethu gan yr adolygiad o lety â chymorth sy'n mynd rhagddo hefyd, gydag amserlen a chynigion gwahanol. Nid oes eglurder ar hyn o bryd o ran cyfeiriad Cefnogi Pobl mewn perthynas â chyllid hyblyg a'r adolygiad o lety â chymorth.</p> <p>Teimlwyd nad oedd unrhyw gyfeiriad clir gan Lywodraeth Cymru, ac nid oedd llawer o wybodaeth yn cael ei rhannu o ganlyniad i gynlluniau braenaru.</p> <p>Awgrymodd REv efallai y byddai'n ddefnyddiol archwilio a deall yr hyn rydym yn ei wneud ar hyn o bryd a'i gael fel dewis arall i'r cynllun braenaru. Gallwn ni, fel rhanbarth, edrych ar yr hyn rydym yn ei wneud eisoes o ran ceisio cyflawni canlyniadau; ym Mhowys, mae llawer o gomisiynu ar y cyd rhwng meysydd gwaith, sy'n caniatáu'r hawl i drosglwyddo arian. Gall y rhanbarth edrych ar esiamplau o'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.</p> <p>Atgoffodd AJ y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ynghylch adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a gafodd ei rannu â'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn gynharach. Mae'r adroddiad yn dangos gwerthusiad o sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu'r rhaglen Cefnogi Pobl ar hyn o bryd a'r broses bontio i gyllid hyblyg. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno ateb o fewn mis.</p>	

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
	<ul style="list-style-type: none"> • Cydgysylltydd Datblygu Rhanbarthol – adolygiad blynyddol, gwefan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, diwrnod datblygu'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cyflwynodd BD yr adolygiad blynyddol, sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Mehefin. Gweler yr adolygiad blynyddol isod. <p>Rhannodd BD grynoded o'r adborth gan aelodau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.</p> <p>Awgrymodd REv y dylai'r adolygiad edrych ar y gwasanaethau a gomisiynir gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol; beirniadaeth gyffredin gan Lywodraeth Cymru o'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yw'r diffyg gwasanaethau rhanbarthol sydd wedi'u comisiynu. Mae hyn yn her i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol wrth symud ymlaen. Beth allwn ni ei gomisiynu fel rhanbarth? Beth sy'n gwneud synnwyr o ran comisiynu ar lefel ranbarthol a diwallu anghenion ar y lefel leol? Mae angen i ni archwilio'r mathau hyn o gwestiynau wrth symud ymlaen.</p> <p>Tynnodd SI sylw at y ffaith fod yn rhaid cydnabod bod daearyddiaeth eang a gwahaniaethau diwylliannol y rhanbarth yn cyflwyno her o ran gallu comisiynu'n rhanbarthol.</p> <p>Ynglŷn â gwefan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol, dywedodd BD wrth y pwyllgor fod penderfyniad wedi cael ei wneud o ran pwy i gomisiynu i ddatblygu gwefan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol ond mae hyn wedi cael ei ohirio gan nad yw Cytundeb Rhannu Data wedi cael ei lofnodi eto.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Swyddogion Cefnogi Pobl awdurdodau lleol / grwpiau cynllunio lleol / cynlluniau gwariant <p>Diweddariad Sir Gaerfyrddin</p> <ul style="list-style-type: none"> - Gwybodaeth a roddwyd i grwpiau cynllunio awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol wybodaeth ynghylch blaenoriaethau lleol a'r cyfeiriad strategol. 	<p>BD</p> <p>AJ</p>

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
	<p>Trefnwyd cyfarfod diwethaf Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Sir Gaerfyrddin ar 1 Mai 2018. Trafodwyd y materion canlynol yn ystod y cyfarfod:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn 2. Cynllunio strategol – trafodaeth ynghylch cynllun comisiynu ac adroddiad ar gynnydd y gwasanaethau peilot newydd sydd wedi'u blaenoriaethu ar gyfer datblygu yn 2017/18 (meysydd a nodwyd: VAWDASV, troseddwyr, pobl ifanc a chamddefnyddio sylweddau) 3. Trafod y cynigion peilot newydd – budd-daliadau lles arbenigol a'r Gwasanaeth Cyngor Ariannol mewn cydweithrediad â chydweithwyr y maes tai 4. Adborth o ran y Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chymorth a'r adolygiad o lety â chymorth 5. Alinio â strategaeth VAWDASV i ddatblygu ffordd wahanol o ddarparu gwasanaethau VAWDASV, sy'n gofyn am lety ail gam er mwyn ei wneud yn ddiogel ar gyfer unigolion <p>- Cynnydd hyd yn hyn yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag adolygiadau diweddar o ran dyrannu'r Grant Cefnogi Pobl</p> <p>Mae argymhellion adolygiad diwethaf Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2016 wedi'u cwblhau. Mae archwiliad mewnol o'r canlyniadau wedi cael ei gynnal a'r dystysgrif archwilio wedi cael ei llofnodi. Mae'r gwaith o gasglu gwybodaeth ar gyfer yr archwiliad ariannol a fydd yn digwydd ym mis Gorffennaf/Awst wedi dechrau. Rhaglen fanwl o adolygiadau o wasanaethau a gynllunnir a diweddariad o ran pob adolygiad gwasanaeth pan gaiff ei weithredu; nid oes cynlluniau i adolygu unrhyw wasanaethau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol.</p> <p>- Cynhaliwyd ymweliadau monitro a nodwyd y gwelliannau o ran perfformiad.</p> <p>Diweddariad Sir Benfro (Gweler y nodiadau gan EG)</p> <p>- Gwybodaeth a roddwyd i grwpiau cynllunio awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol wybodaeth ynghylch blaenoriaethau lleol a'r cyfeiriad strategol.</p>	<p>Nodiad au gan EG</p>

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
	<p>Cyfarfu aelodau o Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl ar 26.04.2018 a rhannwyd y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r prosiect â nhw. Mae mynychu'r grŵp yn gyson wedi bod yn heriol. Bydd 2018/19 yn gweld y tîm Cefnogi Pobl yn rhoi sylw at ail-dendro contractau, gyda chyfleoedd i ailfodelu gwasanaethau a fydd yn annog brwdfrydedd a thrafodaeth gyda'r grŵp.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cynnydd hyd yn hyn yn erbyn yr argymhellion a wnaed gan swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag adolygiadau diweddar o ran dyrannu'r Grant Cefnogi Pobl <p>Achos busnes Cefnogi Pobl – cynhaliwyd proses recriwtio ym mis Mai, a llwyddwyd i lenwi'r holl swyddi</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Rheolwr Comisiynu (contract tymor sefydlog hyd 31 Mawrth 2019) – penodwyd JJ o 14 Mehefin 2018 2. Swyddog Comisiynu a Rheoli Contractau (pen agored) – 11 Mehefin 2018 3. Swyddog Sicrhau Ansawdd (pen agored) – 18 Mehefin 2018 <p>Gall yr adnodd ychwanegol ymateb i gynllun gwaith Cefnogi Pobl Sir Benfro a'r argymhellion a wnaed gan y tîm archwilio mewn perthynas â monitro ac adolygu gwasanaethau. Hefyd, bydd gennym y gallu i fynd ar drywydd a datblygu cyfleoedd gweithio ar y cyd gyda Cheredigion a Sir Gaerfyrddin.</p> <p>Bydd EG yn symud ar draws i gefnogi contractau'r gwasanaethau byw â chymorth – fel rhan o'r swyddogaeth hon, bydd gwaith yn cael ei gyflawni gyda darparwyr y Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol a'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol er mwyn gwella'r gwaith monitro ac adrodd ar weithgareddau Cefnogi Pobl sy'n ymwneud â thai.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Rhaglen fanwl o adolygiadau o wasanaethau a gynllunnir a diweddariad o ran pob adolygiad gwasanaeth pan gaiff ei weithredu <p>Feirysau a gludir yn y gwaed / Gwalia – yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth firysau a gludir yn y gwaed a'r Aseiad Effaith Integredig cysylltiedig, bydd y gwasanaeth hwn yn dod i ben ar 10 Mehefin 2018. Mae atgyfeirwyr a chwsmeriaid wedi cael eu hysbysu gan ddarparwr y gwasanaeth, Gwalia (Pobl). Bydd anghenion cymorth cwsmeriaid sy'n gysylltiedig â thai yn cael eu cefnogi gan y gwasanaethau cymorth fel y bo'r angen generig.</p>	

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
	<p>Gwasanaeth Dementia / Hywel Dda – mae swydd y Gweithiwr Cymorth Dementia sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn wedi bod yn wag ers mis Medi 2017. Yn dilyn ymdrech recriwtio aflwyddiannus, a thrafodaeth â'r darparwr, penderfynodd Hywel Dda i beidio â defnyddio rhagor o arian Cefnogi Pobl. Mae dadcomisiynu'r gwasanaeth hwn wedi cyflwyno cyfle cadarnhaol i archwilio cyfleoedd ariannu cyfun (megis gyda chyllid gofawr) er mwyn caniatáu comisiynu gwasanaeth holistaidd ar gyfer y grŵp hwn o gleientiaid.</p> <p>Diweddariad Ceredigion</p> <ul style="list-style-type: none"> - Mae comisiynwyr, Cefnogi Pobl a rhanddeiliaid wedi bod yn cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda darparwyr gwasanaethau a chymorth fel rhan o ymarfer mapio gwasanaethau sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd yn yr awdurdod. Mae hyn wedi cynnwys gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl a'r rhai nad ydynt yn cael eu hariannu gan Cefnogi Pobl, ond dim ond lle mae gorgyffwrdd neu gysylltiadau â gwasanaethau Cefnogi Pobl. Dyma ddechrau taith tuag at gomisiynu gwasanaethau o fewn Ceredigion yn unol â thrawsnewid y strwythur gofal cymdeithasol ac er mwyn bodloni argymhellion adolygiad Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru. - Mae trafodaethau yn parhau o hyd gyda chydweithwyr Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg o ran yr opsiynau gweithio posibl i baratoi ar gyfer y cyllid hyblyg a gynigir. - Mae amserlen o adolygiadau dros dro wedi cael ei pharatoi a chynhaliwyd oddeutu 70% o'r adolygiadau hyn gyda phrosiectau Cefnogi Pobl o fewn Ceredigion. - Mae'r tîm Cefnogi Pobl wedi adfer cyfarfodydd y fforwm Cefnogi Pobl gyda darparwyr cymorth a rhanddeiliaid eraill. - Mae arolwg adborth ar-lein ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag adrodd ar ganlyniadau Cefnogi Pobl yn cael ei ddatblygu i gyfrannu at y gwaith o werthuso'r gwasanaethau a ddarperir, dilysu canlyniadau, a chyfrannu'n rhannol at waith i gynnwys defnyddwyr gwasanaethau. - Ar hyn o bryd, rydym yn aros i gytundeb rhannu data drafft gael ei baratoi gan y tîm cyfreithiol a'i gymeradwyo er mwyn caniatáu rhannu gwybodaeth gyda Chyswllt 	<p>GP</p>

EITEM	COFNODION / CAMAU GWEITHREDU	ARWEI NYDD
	<p>Diogel Gwybodaeth Ddienw / Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.</p> <p>Diweddariad Powys Rydym ar fin paratoi tendr ar gyfer gwasanaethau atal digartrefedd, a fydd yn cynnwys llawer o gymorth lleol gyda nod o gyrraedd pobl ar draws Powys; bydd yn ymwneud llawer ag iechyd meddwl ac anabledd synhwyraidd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Landlordiaid (dim diweddariadau) • Darparwyr gwasanaethau Mae strategaeth VAWDASV yn destun ymgynghoriad; gofynnir i'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol gymryd amser i'w darllen a rhoi adborth (Dim diweddariadau eraill) 	AdJ
<p>10. Unrhyw fusnes arall – thema ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol</p> <p>Cam gweithredu</p> <p>Dyddiadau cyfarfodydd / themâu'r dyfodol</p>	<p>Awgrymodd SI y thema: 'Digartrefedd ac Atal Digartrefedd' ar gyfer mis Medi</p> <p>Bydd y dyddiad arfaethedig (20fed) yn cael ei ohirio gan ei fod yn gwrthdaro ag ymrwymadau dyddiadur nifer o aelodau, gan gynnwys y cadeirydd.</p> <p>27 Medi 2018 – Digartrefedd ac Atal Digartrefedd</p> <p>13 Rhagfyr 2018 – diwrnod datblygu – diweddariad ar y cynllun a'r Grant Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chymorth / cyllid hyblyg</p> <p>7 Mawrth 2019 – (i'w gadarnhau)</p>	Pawb

Paratowyd gan: BD